

# BWLETIN Y FARCHNAD HCC

## RHIFYN Y SIOE FRENHINOL

**Cafwyd amodau masnachu ffafriol i gynhyrchwyr gwartheg cig eidion a defaid yn ystod y misoedd diwethaf, ac roedd prisiau gwartheg ac ŵyn dethol gryn dipyn yn uwch nag oedden nhw yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae'r rhesymau sylfaenol am hyn yn amrywio yn ôl rhywogaeth, hyd yn oed os yw'r canlyniad yn y pen draw yn debyg. Bydd y Bwletin hwn, a gynhyrchwyd ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru, yn ystyried yr hyn sydd wedi dylanwadu ar y farchnad yn ystod 2017 a sut y gallai hyn ddatblygu yn ystod gweddill y flwyddyn.**

## Y sefyllfa bresennol




## Pris cyfartalog yn y marchnadoedd da byw yn yr wythnos yn diweddu 15 Gorffennaf 2017

| | Pris | Newid wythnosol | Newid o'r naill flwyddyn i'r llall |
|---|---|---|---|
| | | (c/kg PB) | |
| **Gwartheg dethol** Cymru a Lloegr | 193.7 | +2.7 | +11.7 |
| **Ŵyn dethol -** Cymru | 209.1 | +1.6 | +19.1 |

## Pris cyfartalog pwysau marw yn yr wythnos yn diweddu 15 Gorffennaf 2017

| | Pris | Newid wythnosol | Newid o'r naill flwyddyn i'r llall |
|---|---|---|---|
| | | (c/kg PM) | |
| **Bustych** Cymru a Lloegr | 361.0 | -1.5 | +38.4 |
| **Dyfynbris Ansawdd Safonol Ŵyn -** Prydain | 466.2 | +5.0 | +47.4 |

## Cyflenwad

Un o'r prif ddylanwadau ar brisiau yn y sector cig coch yw'r cyflenwad o anifeiliaid dethol ar y farchnad. Yn ystod hanner cyntaf 2017 roedd llai o wartheg dethol, ond mwy o ŵyn dethol. Roedd y cynnydd yn nifer yr ŵyn yn deillio o'r ffaith fod mwy nag arfer o ŵyn y llynedd wedi cael eu cadw ar y ffermydd, ynghyd â gwell tymor tyfu ar gyfer ŵyn eleni.

Yn ystod chwe mis cyntaf eleni, lladdwyd 976,200 o wartheg dethol yn lladd-dai'r DU, sef dau y cant (neu 20,000) yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, Mae'r gostyngiad ym Mhrydain yn fwy, sef tri y cant (810,000 o anifeiliaid). Gwelwyd gostyngiad mewn niferoedd ar gyfer y tri math o wartheg dethol yn y ffigurau ar gyfer y DU, ond roedd y gostyngiad mwyaf yng nghategori'r teirw ifainc, lle cafwyd gostyngiad o naw y cant wrth i rai proseswyr osod rhagofynion llymach ar gyfer y math hwn o anifail. Rhywbeth yn debyg i'r llynedd fu pwysau carcasau gwartheg dethol gyda chyfartaledd o 351.3kg, sef tua 2kg yn ysgafnach na chyfartaledd 2016 ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn. Cafwyd amrywiaeth rhwng categorïau'r gwartheg dethol; dal yr un fath (325kg) wnaeth pwysau teirw ifainc, ond roedd pwysau heffrod (332kg) yn 2kg yn drymach. Gostyngodd pwysau carcasau bustych yn sylweddol eleni - 6kg i gyfartaledd o 370kg. Mae hyn yn amlygu'r hyn a welwyd yn y farchnad y llynedd pan osryngodd rhan fwyaf o'r prif broseswyr eu hystodau pwysau ar gyfer carcasau. Golygodd y gostyngiad yn nifer yr anifeiliaid, ynghyd â charcasau ysgafnach fod y cyflenwad o gig eidion dethol cartref wedi gostwng bron i dri y cant i 343,000 tunnell fetrig.

Marchnatwyd mwy o ŵyn dethol yn ystod hanner cyntaf eleni, ac roedd y cyfanswm a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn 5.9 miliwn. Mae hyn dros chwarter miliwn (neu bump y cant) yn fwy o ŵyn nag yn chwe mis cyfatebol 2016. Mae'r cyflenwad tymhorol a'r newid o ŵyn hen dymor i ŵyn tymor newydd yn golygu y cafwyd dau batrwm tra gwahanol eleni gyda phrisiau'r farchnad ar ddechrau'r flwyddyn yn is nag yn 2016 wrth i nifer gynyddol o ŵyn hen dymor gael eu marchnata rhwng mis Ionawr a mis Ebrill. Cafwyd awgrymiadau fod y cyflenwad o'r ŵyn hyn wedi peidio yn gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol a golygodd hyn fod pris ŵyn tymor newydd wedi gwella'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf er bod y niferoedd yn uwch wrth i gynhyrchwyr fanteisio ar well tyfiant. Ym misoedd Mai a Mehefin marchnatwyd ychydig dros ddwy filiwn o ŵyn dethol, sef dros 100,000

yn fwy nag yn 2016. Gallai hyn fod o fantais i'r farchnad yn y dyfodol am ei bod yn bosibl y bydd llai o ŵyn ar gael yn ystod y cyfnod brig o fis Medi tan fis Tachwedd.

## Mewnforio/Allforio

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar pa mor gystadleuol ydy allforwyr o'r DU yn y farchnad ryngwladol ac o'r herwydd yn dylanwadu hefyd ar y prisiau y bydd cynhyrchwyr yn eu derbyn am anifeiliaid dethol. Un o'r elfennau pwysicaf yn hyn o beth yw'r gyfradd gyfnewid, yn enwedig rhwng Sterling a'r Ewro, gyda dros 90% o allforion cig eidion a defaid y DU yn cael eu hanfon i wledydd eraill ymhlith 28 aelod-wladwriaeth yr UE. Ers refferendwm yr UE y llynedd a'r ansicrwydd gwleidyddol wedi hynny, mae Sterling wedi gwanhau yn sylweddol. Caniataodd hyn i allforwyr o'r DU dderbyn gwell enillion o gynhyrchion a werthwyd i Gyfandir Ewrop.

**Cyfradd gyfnewid Sterling ac Ewro**

| | 20.07.2017 | 20.07.2016 | 20.07.2015 |
|---|---|---|---|
| €:£ | 1 : 0.88 | 1 : 0.83 | 1 : 0.70 |
| £:€ | 1 : 1.13 | 1 : 1.20 | 1 : 1.43 |

Mae modd gweld dylanwad y gyfradd gyfnewid yn y ffigurau allforio a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ystod pum mis cyntaf eleni allforiwyd 33,800 tunnell fetrig o gig defaid gan y DU. Er bod hyn tua 5,100 tunnell fetrig (neu 18%) yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, roedd cyfanswm gwerth yr allforion hyn yn £144.6 miliwn, sef £26.4 miliwn (neu 22%) yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2016. Mae dylanwad y gyfradd gyfnewid wedi effeithio hefyd ar fewnforion cig defaid. Wrth edrych ar y cyfnod o bum mlynedd, gwelir bod doler Seland Newydd wedi cryfhau mewn cymhariaeth â Sterling ers dechrau'r flwyddyn. Mae hynny, ynghyd â gostyngiad yn nifer y defaid yn Seland Newydd a marchnadoedd newydd ar gyfer eu cynnyrch, yn golygu bod cyfanswm allforion cig oen Seland Newydd i'r DU yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn yn 30,500 tunnell fetrig, sef gostyngiad o 21 y cant. Roedd cyfanswm y mewnforion cig defaid i'r DU tan fis Mai yn 41,050 tunnell fetrig, sef 6,450 tunnell fetrig yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2016.

Un o ganlyniadau anuniongyrchol y gostyngiad yng nghyflenwad cig eidion dethol cartref ar y farchnad yn y DU fu gostyngiad yng nghyfaint y cig eidion sydd ar gael i'w allforio. Yn ystod pum mis cyntaf 2016 allforiwyd 42,000 tunnell fetrig o gig eidion o'r DU, sef gostyngiad o naw y cant. A disgwyl y byddai mwy ar gael eleni, rhagwelwyd y byddai cryn dipyn yn fwy o gig eidion yn cael ei allforio gan Iwerddon. Nid yw hynny wedi digwydd eto am fod y gyfradd gyfnewid anffafriol ac ymdrech i allforio gwartheg byw wedi golygu na chafwyd fawr ddim cynnydd yn yr allforion cig eidion o Iwerddon. Yn ystod y cyfnod o bum mis allforiwyd cyfanswm o 75,200 tunnell fetrig o gig eidion o Iwerddon i'r DU, sef cynnydd o ychydig dan bump y cant.

**Dewch i'n gweld yn y Sioe lle byddwn yn canolbwyntio ar fesur, monitro a chynhyrchu da byw yn ôl gofynion y farchnad. Bydd cyngor a gwybodaeth arbenigol ynghyd â llyfrynnau newydd sbon ar gael i chi.**

**Byddwn hefyd yn cyflwyno rhai o gigyddion a phen-cogyddion gorau'r wlad ac yn rhannu tameidiau blasus i bawb fwynhau!**




Gostwng wnaeth y cyfaint o wledydd eraill, a olygodd taw cynnydd o ddim ond un y cant i 106,250 tunnell fetrig a gafwyd yng nghyfanswm yr holl allforion ar gyfer y cyfnod dan sylw.

## Defnyddio Cig

Roedd holl gyfaint y cig eidion ffres a werthwyd mewn siopau ym Mhrydain o ddechrau 2017 tan yr wythnos yn diweddu 18 Mehefin yn gymharol sefydlog, gyda Kantar Worldpanel yn adrodd bod 128,000 tunnell fetrig wedi'i brynu. Âr pris cyfartalog yn £7.89/kg, roedd hyn yn golygu bod y gwerthiannau ar gyfer y cyfnod yn werth dros £1 biliwn, sef cynnydd o 1% ar y flwyddyn.

Ers dechrau'r flwyddyn tan yr wythnos yn diweddu 18 Mehefin 2017 roedd cyfanswm y cig oen a brynwyd mewn siopau ym Mhrydain yn werth £270.7 miliwn, sef bron pump y cant yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2016. Roedd hyn oherwydd gostyngiad o 11 y cant i 30,800 tunnell fetrig yn y cyfaint a werthwyd. Roedd y pris cyfartalog cyfunol ar gyfer yr holl gynhyrchion cig oen a werthwyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn £8.77/kg, sef 43c yn uwch nag oedd yn ystod yr rhyn adeg llynnedd.

## Edrych Ymlaen

Tra bo'r gyfradd gyfnewid o blaid allforwyr yn y DU, mae'n ymddangos yn debygol y bydd y pris ffafriol a welwyd ar gyfer anifeiliaid dethol yn parhau. Bydd y cyflenwad o anifeiliaid ar y farchnad yn parhau i fod yn un o'r ffactorau pwysicaf a fydd yn dylanwadu ar y pris yn ystod y misoedd nesaf. Gan gofio bod y data o arolwg mis Rhagfyr yn dangos fod nifer y gwartheg a mamogiaid bridio yn y DU yn debyg i'r hyn oedd yn y flwyddyn flaenorol, mae'n annhebygol y gwelwn gynnydd mawr yn y cyflenwad cartref mewn cymhariaeth â'r blynyddoedd blaenorol. Bydd cyflenwad, neu ddiffyg cyflenwad, cig o dramor yn amlwg yn dylanwadu ar brisiau yn ystod gweddill y flwyddyn. Fel arfer, dim ond ychydig o gig defaid fyddai'n cael ei fewnforio, ond mae ansicrwydd o hyd ynghylch faint o gig eidion y gallwn ei ddisgwyl.